



**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

BWRDD RHIANTA CORFFORAETHOL

Cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gynhaliwyd Dydd Llun, 28 Ionawr 2019 am 10.00 am ym Bloc F, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, Tonypanyd CF40 2XX.

Y Cynghorwyr Bwrdeistref Sirol - Bwrdd Rhianta Corfforaethol Aelodau oedd yn bresennol:-

Y Cyngorydd C Leyshon (Cadeirydd)

Y Cyngorydd J Rosser Y Cyngorydd R Yeo
Y Cyngorydd L Jones

Swyddogion oedd yn bresennol

Mr G Isingrini, Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant
Mr P Nicholls, Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Gwasanaethau
Ms C Jones, Pennaeth Materion Mynediad a Chynhwysiant
Ms J Thomas, Rheolwr Gwella'r Gwasanaeth, Ymgysylltu a Chwynion
Ms M Meredith, Rheolwraig y Gwasanaethau Preswyl
Ms E Brabon, Uwch Gydlynwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
Ms K Dobbs, Uwch Gydlynwyr Addysg, Hyfforddiant a Chyflogaeth
Mr L Lewis, Pennaeth dros dro y gwasanaeth troseddau ieuenctid

33 Ymddiheuriadau am Absenoldeb

Cafodd ymddiheuriadau am absenoldeb eu derbyn oddi wrth Gynghorwyr y Fwrdeistref Sirol G. Hopkins, S. Rees-Owen a J. James.

34 Datgan Buddiant

Yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor, doedd dim datganiadau o fuddiant ynglŷn â'r agenda.

35 Cofnodion

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol a gafodd ei gynnal ar [insert date] yn rhai cywir.

36 Rhaglenni Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, darparodd yr Uwch Gydlynwyr Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant, Adnoddau Dynol, wybodaeth i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol mewn perthynas â'r Rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir.

Dysgodd yr Aelodau fod Camu i'r Cyfeiriad Cywir yn rhaglen sydd wedi'i hariannu'n gorfforaethol ar gyfer pobl ifainc rhwng 16 a 25 oed sy'n derbyn gofal neu sydd wedi derbyn gofal yn y gorffennol. Eglurodd y swyddog bod y rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir yn rhoi cyfle i bobl ifainc fanteisio ar ddwy flynedd o brofiad gwaith sydd wedi'i deilwra'n arbennig ar gyfer eu hanghenion nhw, yn debyg iawn i Gynllun Prentisiaeth y Cyngor. Yn annhebyg i nifer o raglenni eraill, mae Camu i'r Cyfeiriad Cywir yn rhoi cyfle i bobl ifainc gael blas ar nifer o leoliadau gwaith yn ystod eu blwyddyn gyntaf, fel bod modd iddyn nhw gael profiad ym mhob maes cyn penderfynu pa drywydd sydd fwyaf addas iddyn nhw ei ddilyn. Roedd yr Aelodau yn falch o glywed y bydd y bobl ifainc sy'n cwblhau'r cwrs yn meddu ar brofiadau perthnasol, sgiliau trosglwyddadwy a nifer o gymwysterau, a allai arwain at gyflogaeth lawn amser.

Eglurodd y swyddog fod 6 unigolyn ifanc, allan o tua 15 o enwebiadau, yn cael eu dewis i gymryd rhan yn y rhaglen bob blwyddyn. Cafodd yr aelodau eu sicrhau bod y rheiny sydd ddim yn llwyddo i gael eu dewis ar gyfer y rhaglen yn cael cymorth ac arweiniad ynglŷn â chyfleoedd eraill.

Siaradodd y cynrychiolydd o'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol am y cyfleoedd mentora cyfoedion a gaiff eu darparu gan y Gwasanaeth, a holodd p'un a fyddai modd i'r bobl ifainc sydd ddim yn llwyddo i gael lle ar y rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir gael mentor er mwyn cael cymorth ychwanegol. Croesawodd yr Uwch Gydlynwyr Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant yr awgrym ynglŷn â mentora cyfoedion. Dywedon nhw fod y rhaglen yn dibynnu'n helaeth ar gymorth gan weithiwr cymdeithasol yr unigolyn ifanc ac, o ganlyniad, does dim modd i bobl ifainc sy'n derbyn gwasanaeth Gofal a Chymorth fod yn gymwys am y rhaglen gan nad oes ganddyn nhw weithiwr cymdeithasol i'w helpu nhw ar ôl iddyn nhw droi'n 18 oed.

Gofynnodd un aelod am gyfraddau cwblhau'r rhaglen. Eglurwyd bod pobl ifainc wedi gadael y rhaglen yn y gorffennol am amrywiaeth o resymau ond, o ganlyniad i'r cyfnod prawf tri mis, mae modd i rywun arall gymryd eu lle bob amser.

Gwnaeth yr aelodau sylwadau cadarnhaol ynglŷn â'r rhaglen Camu i'r Cyfeiriad Cywir a holon nhw a fyddai modd i ragor o bobl ifainc gymryd rhan. Dywedodd y swyddogion fod y garfan wedi tyfu ers i'r rhaglen gael ei sefydlu 14 mlynedd yn ôl, a bellach, mae modd cynnal deg o bobl ifainc am gost o £12.5k fesul unigolyn, bob blwyddyn. Rhoddodd Cyfarwyddwr y Gyfadran ganmolaeth i'r garfan a dywedodd y byddai e'n ystyried y posibilrwydd o gynyddu nifer y cyfleoedd i ddeg o bobl ifainc y flwyddyn.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am y cyflwyniad cadarnhaol a **PHENDERFYNWYD** y byddai'r swyddogion Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant yn cael eu gwahodd i gyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol ddwywaith y flwyddyn er mwyn rhannu'r wybodaeth ddiweddaraf.

37 Grant Amddifadedd Disgyblion

Yn absenoldeb cynrychiolwr o Gonsortiw m Canolbarth y De, rhoddodd Bennaeth y Gwasanaeth Mynediad a Chynhwysiant y newyddion diweddaraf i'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol ynglŷn â'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal, gan egluro sut y cafodd e ei ddefnyddio yn Rhondda Cynon Taf yn ystod blwyddyn academaidd 2017/18.

Rhoddodd y swyddog wybodaeth gefndir i'r aelodau ynglŷn â'r Grant Amddifadedd Disgyblion a nododd ei fod wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru. Ei nod yw adeiladu ar y gwaith sydd eisoes yn cael ei gyflawni gan Awdurdodau Lleol er mwyn gwella cyrhaeddiad addysgol Plant sy'n Derbyng Gofal a Phlant sydd wedi Derbyng Gofal, er mwyn cau'r bwch.

Aeth y swyddog ymlaen i nodi bod y Grant yn cael ei reoli'n ganolog gan Gonsortiw Canolbarth y De ar hyn o bryd, gyda Chyfarwyddwyr Addysg o bob Awdurdod Lleol yn cytuno ar y prif flaenoriaethau mewn perthynas â'r arian. Mae'r rhain yn cynnwys:

- Gwella cyflawniad/cyrhaeddiad;
- Gwella presenoldeb;
- Lleihau achosion o wahardd disgyblion;
- Gwella capasiti'r ysgolion i sicrhau deilliannau gwell ar gyfer disgyblion drwy ddarparu hyfforddiant a chymorth, gwaith rhwng ysgolion a rhannu arfer da (o fewn y clwstr yn ddefnyddiol) a;
- Sicrhau bod partneriaethau ledled y rhanbarth yn parhau i ddatblygu o fewn Consortiw Canolbarth y De, ysgolion, Gofal Cymdeithasol ac asiantaethau eraill.

Roedd yr Aelodau yn falch o glywed bod y data o ran deilliannau ar gyfer blwyddyn academaidd 2017/18 yn nodi gwelliannau yng ngyrhaeddiad disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 a 3. Roedd hi hefyd yn gadarnhaol clywed bod lefelau presenoldeb disgyblion sy'n derbyn gofal yn well na'r lefel ar gyfer poblogaeth gyffredinol ysgolion yn RhCT ac, er bod y cyfraddau gwahardd o fewn RhCT wedi cynyddu, mae'r gyfradd o ran gwaharddiadau fesul 1000 o ddisgyblion wedi cwmpo mewn perthynas â disgyblion sy'n derbyn gofal.

Nododd y swyddog fod y garfan wrthi'n profi'r adnodd proffilio PERMA mewn sawl ysgol. Eglurwyd y byddai'r feddalwedd yn helpu i nodi dulliau gweithredu ar gyfer unigolion, ysgolion a chartrefi er mwyn meithrin hunanymwybyddiaeth, gwydnwch ac ymwybyddiaeth emosiynol gwell.

Wrth gyfeirio at atodiad 1 a 2 yr adroddiad, nododd un Aelod bryderon ynglŷn â dyrannu ac adnoddau a nodwyd bod y rhan fwyaf o'r adnoddau wedi'u dyrannu'n syth i'r ysgolion yn 2017/18, ond yn 2018/19 cafodd y cyllid ei ddyrannu i glystyrau ysgolion.

Soniodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant am y cynnydd mewn anghenion ledled Cymru, a'r angen dilynol am ddata cymharol ar draws Awdurdodau Lleol eraill er mwyn sicrhau'r deilliannau gorau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Pennaeth Gwasanaeth am yr adroddiad manwl, gan gyfeirio at y deilliannau data cadarnhaol a'r llwyddiannau a nodwyd.

PENDERFYNWYD:

- a) Bod y data cymharol mewn perthynas â deilliannau Awdurdod Lleol yn cael ei adrodd yn ôl i gyfarfod y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol a;
- b) Bod canlyniadau'r gwerthusiad o'r model clwstr ysgolion, o'i gymharu â darparu'r adnoddau'n syth i'r ysgolion, yn cael eu trafod yn un o gyfarfodydd y Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn y dyfodol.

38 Adroddiad Blynyddol Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc

Darparodd Pennaeth Dros Dro Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc adolygiad blynyddol y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc ar gyfer 2018/19 i'r aelodau.

Yn ogystal â'r gwaith craffu a gaiff ei ddarparu gan y Bwrdd Rheoli Troseddwy, cafodd yr Aelodau wybod bod Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc hefyd yn rhoi adroddiadau chwarterol ar ei gyflawniad i'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid a Llywodraeth Cymru, a hynny mewn perthynas â'i waith ataliol. Gan gyfeirio at Adran 4 yn yr adroddiad, eglurodd y swyddog fod y Gwasanaeth Troseddau'r Ifainc hefyd yn destun trefn arolygu gan Arolygiaeth Prawf Ei Mawrhydi, a gafodd ei gyflawni ym mis Mawrth 2017. Roedd y feiriniadaeth yn seiliedig ar chwe maes allweddol a chawson nhw eu marcio ar raddfa rhwng un a phedair seren. Roedd y rhain yn cyfateb â:

1. Gwael
2. Anfoddhaol
3. Boddhaol
4. Da

Roedd yr aelodau'n falch o ddysgu bod canlyniadau'r arolwg yn rhoi darlun cadarnhaol a chytbwys o'r gwasanaeth, a chawson nhw sicrwydd bod yr argymhellion allweddol wedi'u cydnabod a'u bod nhw'n cael eu gwella. Ychwanegodd y swyddog fod cynllun gweithredu wedi'i lunio ar ôl i'r adroddiad gael ei gyhoeddi, ac na chafodd unrhyw gamau gweithredu 'coch' eu rhoi ar waith.

Holodd y cynrychiolwr o NYAS p'un a oedd yr adborth ynglŷn â'r maes gwasanaeth yn cael ei fonitro. Dywedodd y swyddog wrth y Bwrdd fod cynrychiolwr annibynnol yn cynnal proses sicrhau ansawdd o'r maes gwasanaeth, sy'n cynnwys adborth gan y plant.

Dywedodd y swyddog fod y System Gyfiawander Ieuencid, o bosibl, am weld newidiadau yn y flwyddyn ariannol nesaf. Nododd yr aelodau fod ansicrwydd ynglŷn â'r arian grant a sut y byddai modd ei ddyrannu i Awdurdodau Lleol.

Canmolodd un aelod y gwasanaeth a manteisiodd ar y cyfle i siarad am brosiect sglefr fyrddio lleol o fewn ei ward a gafodd ei ariannu gan Wasanaeth Troseddau'r Ifainc er mwyn denu pobl ifainc a lleihau'r achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn y gymuned.

Achubodd y Cyfarwyddwr Cyfadran ar y cyfle i ddiolch i'r Pennaeth Gwasanaeth Dros Dro, a oedd yn rhan allweddol o'r gwaith o sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol sydd gerbron yr Aelodau.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddog am yr adroddiad. **PENDERFYNWYD** nodi ei gynnwys.

39 Y Datganiad Diweddaraf am Fwriad Strategol Partneriaeth Cwm Taf

Cyflwynodd Cyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a Gwasanaethau i Blant Ddatganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant a

Phobl Ifainc i'r bwrdd. Cafodd ei gymeradwyo gan y Cabinet ar 21 Tachwedd 2018. Mae'r datganiad yn amlinellu'r weledigaeth, yr egwyddorion a'r nodau cyffredin a fydd yn llywio gwaith yr holl bartneriaid wrth fynd i'r afael â deddfwriaeth Llywodraeth Cymru.

Eglurodd y Cyfarwyddwr Cyfadran y byddai'r datganiad yn cefnogi pob asiantaeth bartner yng Nghwm Taf i weithio gyda'i gilydd er mwyn darparu gwasanaeth sydd wedi'i integreiddio ar gyfer plant a phobl ifainc sy'n agored i niwed a'u teuluoedd. Ychwanegwyd y byddai'r Cynllun Gweithredu yn cael ei gyflwyno i'r Cabinet i'w gymeradwyo unwaith y bydd wedi'i gwblhau, ac y byddai'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol yn cael ei gynnwys yn y broses.

Diolchodd y Cadeirydd i'r Cyfarwyddwr Cyfadran am yr adroddiad, gan nodi ei bod hi'n galonogol gweld partneriaid yn gweithio gyda'i gilydd i lunio strategaeth gadarn er mwyn helpu i lywio agweddau gwahanol ar wasanaethau i blant ledled Cwm Taf.

PENDERFYNODD y Bwrdd Rhianta Corfforaethol nodi Datganiad o Fwriad Rhanbarthol Cwm Taf ar gyfer Cefnogi Plant a Phobl Ifainc a'u Teuluoedd.

40 Trafod cadarnhau'r Penderfyniad isod:-

PENDERFYNWYD bod y cyfarfod hwn yn cadw aelodau o'r wasg ac aelodau o'r cyhoedd allan o ystafell y cyfarfod, dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (fel y'i diwygiwyd), yn ystod trafod yr agendwm nesaf, ar y sail y byddai'n debygol o olygu datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl diffiniad paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A o'r Ddeddf.

41 Adroddiadau Rheoliad 73

Rhoddodd y Rheolwr Gwasanaethau Preswyl yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ymweliadau o dan Reoliad 32 wedi eu cynnal yn y tri chartref i blant – Y Beddau, Bryndâr, a Nant-gwyn.

Amlinellodd y swyddog grynodedb o ganlyniadau'r arolygiad. **PENDERFYNWYD:**

- a) nodi cynnwys yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.30 am

**Y Cynghorydd C Leyshon
Cadeirydd.**